# LLYWODRAETH CYMRU

**GORCHYMYN GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (YR A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (YR A4060) A CHEFNFFORDD CAERDYDD I LANCONWY (YR A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (GILWERN I FRYN-MAWR) (FFYRDD YMYL) 2014 (AMRYWIO) 202-**

## DATGANIAD ESBONIADOL

### RHAGARWEINIAD

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod priffyrdd perthnasol, yn gyfrifol am bob cefnffordd yng Nghymru. Mae'r A465 yn rhan bwysig o rwydwaith ffyrdd strategol Llywodraeth Cymru. Dyma'r prif lwybr rhwng y dwyrain a'r gorllewin sy'n cysylltu canolfannau diwydiannol Canolbarth Lloegr a De Cymru. Mae hefyd yn darparu llwybr arall yn lle'r M4.

Yn dilyn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mawrth/Ebrill 2014, gwnaed Gorchmynion Deuoli'r A465 Rhan 2 Gilwern i Fryn-mawr gan Weinidogion Cymru ym mis Hydref 2014. Mae mwyafrif y gwaith adeiladu sy'n gysylltiedig â'r rhan hon wedi ei wneud neu wrthi'n cael ei wneud, ac mae rhai mân newidiadau wedi eu hymgorffori yn sgil trafodaethau â chyrff a sefydliadau priodol. Dyma'r Gorchmynion ar gyfer y cynllun hwn:

**(i)** Gorchymyn Llinell 1999 a'r Gorchmynion Diwygio Llinell yw—

"Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999" fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Diwygio 2012, Gorchymyn Diwygio 2014, Gorchymyn Diwygio 2019 a Gorchymyn Diwygio 2021.

**(ii)** Y "Gorchymyn Ffyrdd Ymyl" a wnaed ar 6 Hydref 2014 yw "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Gilwern i Fryn-mawr) (Ffyrdd Ymyl) 2014".

**(iii)** Y "Gorchymyn Prynu Gorfodol" a wnaed ar 7 Hydref 2014 yw "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Gilwern i Fryn-mawr)) 2014".

**(iv)** Y "Gorchymyn Amrywio Drafft" a gyhoeddir yn awr yw—

y "Gorchymyn Amrywio drafft i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl" a hwn yw "Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-Nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Gilwern i Fryn-Mawr) (Ffyrdd Ymyl) 2014 (Amrywio) 202-".

**(v)** Y Gorchmynion a wnaed ar gyfer prosiect Deuoli'r A465 Gilwern i Fryn-mawr (y cyfeirir ato fel y "Cynllun a Gyhoeddwyd") yw—

a) Gorchymyn Llinell 1999, fel y'i diwygiwyd, sy'n awdurdodi llwybr y brif gefnffordd newydd, y ffyrdd ymuno ac ymadael, y ffyrdd cysylltu a thynnu statws cefnffordd.

b) Y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl sy'n awdurdodi cau priffyrdd presennol (sy'n cynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau, llwybrau beicio, cilffyrdd cyfyngedig), adeiladu a gwella priffyrdd, cau Mynedfeydd Preifat a darparu Mynedfeydd Preifat newydd, cau priffyrdd dros dro ac adeiladu priffyrdd.

c) Y Gorchymyn Prynu Gorfodol a fyddai'n darparu ar gyfer caffael y tir a'r hawliau sy'n ofynnol i adeiladu a chynnal a chadw'r Cynllun a Gyhoeddwyd.

Lluniwyd Datganiad Amgylcheddol a Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol o effeithiau tebygol posibl y Cynllun a Gyhoeddwyd mewn cysylltiad â'r Gorchmynion uchod. Nid yw'r Gorchymyn Amrywio drafft a gyhoeddir yn awr yn cael effaith amgylcheddol andwyol ac felly nid oes unrhyw atodiadau i'r dogfennau amgylcheddol yn ofynnol yn ei sgil.

Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Rhagfyr 2014 ac roedd yn weithredol ar gyfer y cyhoedd o 21 Tachwedd 2021. Wrth i'r cynllun ddatblygu ac wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo, mae'r mân newidiadau i'r Cynllun a Gyhoeddwyd a amlinellir ym mhwyntiau 1 i 33 isod wedi eu nodi neu eu hadeiladu. Mae'n ofynnol cael Gorchymyn Amrywio i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl er mwyn awdurdodi'r newidiadau a sicrhau bod y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn unol â'r cynllun a adeiladwyd. Diben y newidiadau yn bennaf yw addasu ar gyfer cloddwaith ac amodau topograffig a chyd-fynd â gwaith addasu.

Mae'n bosibl y bydd rhai o'r newidiadau i'r Cynllun a Gyhoeddwyd yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau tir ychwanegol a/neu hawliau ychwanegol dros dir, a chânt eu sicrhau drwy gytundeb neu o dan rai amgylchiadau ar ffurf gwaith addasu. Ni fydd yn ofynnol amrywio'r Cynllun a Gyhoeddwyd yn eu sgil.

Yn sgil trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol perthnasol mae newidiadau o ran yr Awdurdod Priffyrdd wedi eu cynnwys er mwyn adlewyrchu cyfrifoldeb dros briffyrdd penodol.

Mae manylion y newidiadau, gan gynnwys sut y maent yn cymharu â'r Cynllun a Gyhoeddwyd wedi eu hamlinellu ym mhwyntiau 1 i 33 isod ac wedi eu dangos mewn coch ar y planiau safle.

Byddai'r newidiadau a gynhwysir yn y Gorchymyn Amrywio drafft hwn i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (Gorchymyn Amrywio) yn diwygio Atodlenni 1 i 6 ac yn rhoi planiau safle 1D, 1E, 2B, 3B, 4B, 5B a 6A yn lle planiau safle 1, 1A, 2, 3, 4, 5 a 6.

Nid yw'r un o'r newidiadau yn y Gorchymyn Amrywio drafft, a ddisgrifir isod ym mhwyntiau 1 i 33, yn arwain at newid i nodau a gyhoeddwyd y Cynllun a Gyhoeddwyd.

Mae'r newidiadau wedi eu trafod â'r Awdurdodau Lleol perthnasol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Glandŵr Cymru, cyrff statudol ac anstatudol pan fo'n briodol a'r rheini y mae effaith uniongyrchol arnynt wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo. Cysylltwyd â thirfeddianwyr, partïon eraill â buddiant a phersonau y byddai'r Cynllun a Gyhoeddwyd yn effeithio'n uniongyrchol ar eu heiddo neu ar eu mynedfeydd preifat hefyd a rhoddwyd gwybod iddynt am y cynigion cyn i'r gwaith fynd rhagddo. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr holl newidiadau yn ddewis amgen rhesymol i ddyluniad y Cynllun a Gyhoeddwyd.

Gwahoddir gwrthwynebiadau a sylwadau ar y newidiadau i'r Cynllun a Gyhoeddwyd ac mae cyngor ynghylch sut i gyflwyno gwrthwynebiadau a sylwadau wedi ei nodi yn yr Hysbysiad Cyhoeddus.

Mae'r newidiadau a gynhwysir yn y Gorchymyn Amrywio drafft hwn wedi eu crynhoi ym mhwyntiau 1 i 33 isod. Cyfeirir atynt fel y maent yn ymddangos yn yr atodlenni ac fel y maent wedi eu dangos mewn coch ar y planiau safle a adneuwyd.

**1. AILALINIO LLWYBR TROED 333/41/1, LLWYBR TROED 333/34/2, LLWYBR TROED 49/37, LLWYBR TROED GWYLIO SoDdGA DAEAREGOL, LLWYBR BEICIO CENEDLAETHOL 492 (ATODLEN 1 A PHLANIAU SAFLE 1D AC 1E)**

Mân waith i ailalinio darnau o Lwybr troed 333/41/1, Llwybr troed 333/34/2, Llwybr troed 49/37, Llwybr troed gwylio Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) daearegol a Llwybr Beicio Cenedlaethol 492 wrth Gyffordd Bryn-mawr er mwyn addasu ar gyfer amodau ar y safle.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Mae 1/I (Llwybr troed) wedi ei ailalinio a'i ymestyn i'r de o'i leoliad blaenorol ac wedi ei gysylltu â Llwybr troed 333/34/2 a Llwybr troed 333/35/1 fel o'r blaen.

Mae 1/J (Llwybr troed) wedi ei wneud yn hwy er mwyn cysylltu Trosbont Cyffordd Bryn-mawr (Pont Jack Williams) â Llwybr troed 49/37. Cafodd darnau mwy o Lwybr troed 49/37 a Llwybr troed 333/41/1 eu cau.

Ychwanegwyd 1/N (Llwybr troed), 1/M (Llwybr beicio) ac 1/O (Llwybr beicio) er mwyn cysylltu ag 1/L (Llwybr troed) sydd wedi ei wneud yn fyrrach. Cafodd Llwybr Beicio Cenedlaethol 492 ei gau i'r dwyrain o'i gyffordd â Llwybr Beicio Cenedlaethol 46 hyd at bwynt i'r gorllewin o'i gyffordd â Llwybr troed 49/41 ar y cyd â darn bach o'r llwybr sy'n arwain o Lwybr Beicio Cenedlaethol 492 i'r B4248 Ffordd Blaen-Afon.

Mae 1/H (Llwybr troed) wedi ei ailalinio wrth ei ben gorllewinol a'i fyrhau wrth ei ben dwyreiniol ger Pont Jack Williams. Mae'r awdurdod priffyrdd wedi newid o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i Weinidogion Cymru.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**

Mae llwybrau troed wedi eu hailalinio o ganlyniad i broffiliau tir a adeiladwyd o amgylch y cloddwaith wrth Drosbont Cyffordd Bryn-mawr (Pont Jack Williams).

Mae'r gorffeniadau yn gyson ym mhob rhan o'r cynllun ac mae lefel yr amwynder wedi ei chynnal. Cafodd Llwybrau troed 1/I ac 1/J eu hymestyn, ac ychwanegwyd Llwybr troed 1/N.

Mae Llwybr Beicio Cenedlaethol 492 wedi ei ailalinio o ganlyniad i broffiliau tir a adeiladwyd o amgylch y cloddwaith wrth Gyffordd Bryn-mawr, gyda'r cyfeirnodau 1/M ac 1/O, a oedd yn gwella ac yn cynyddu darpariaeth yn yr ardal.

Mae Llwybr troed 1/N yn darparu cysylltiad o Lwybr troed 333/41/1 i Drosbont Cyffordd Bryn-mawr (Pont Jack Williams) drwy 1/J (Llwybr troed). Mae cysylltiad Llwybr beicio 1/O wedi ei greu rhwng Llwybr Beicio Cenedlaethol 492 a'r llwybr sy'n arwain i'r B4248 Ffordd Blaen-Afon.

**2. LLWYBR BEICIO CENEDLAETHOL 46 WRTH GYLCHFAN BRYN-MAWR (ATODLEN 1 A PHLAN SAFLE 1E)**

Cafodd darn mwy o Lwybr Beicio Cenedlaethol 46 ei gau.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Cafodd darn mwy o Lwybr Beicio Cenedlaethol 46 ei gau er mwyn cyfarfod â Llwybr troed 333/35/1, a phennwyd darnau mwy o'r priffyrdd cysylltiedig yr A467, yr A465 a Llwybr Beicio Cenedlaethol 46 yn ddarnau sydd i'w gwella.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**

Darpariaeth amgen wedi ei rhoi gan ffordd feiciau/troetffordd gyfagos i'r A467 a'r A465 wrth Gylchfan Bryn-mawr.

**3. PONT LLWYBR CEFFYLAU'R A465 (PONT DROED HAFOD) A CHYFLEUSTER MAN TROI YN INTERMEDIATE ROAD (ATODLEN 1 A PHLANIAU SAFLE 1D AC 1E)**

Mân waith adleoli ac ad-drefnu'r man troi ar Intermediate Road a Phont Llwybr ceffylau'r A465 (Pont droed Hafod).

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Mae Pont Llwybr ceffylau/Llwybr ceffylau'r A465 (Pont droed Hafod) 1/C wedi ei lledu a'i had-drefnu er mwyn cyfarfod â phriffordd newydd 1/G (ffordd ddiddosbarth o'r enw Clydach Dingle). Mae cyfleuster man troi 1/B (ffordd ddiddosbarth o'r enw Intermediate Road) wedi ei ad-drefnu er mwyn cyfarfod ag ailaliniad y bont llwybr ceffylau. Mae darn llai o Intermediate Road ar y pen dwyreiniol wedi ei gau.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**

Mae'r sefyllfa fel y'i hadeiladwyd yn darparu'r un lefel o amwynder a chysylltiad rhwng Intermediate Road a Clydach Dingle. Mae'r awdurdod priffyrdd ar gyfer 1/C wedi newid o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i Weinidogion Cymru.

**4. MYNEDFA I YSGOL SEFYDLEDIG BRYN-MAWR A SAFLE CYFLEUSTODAU AR CLYDACH DINGLE (ATODLEN 1 A PHLANIAU SAFLE 1D AC 1E)**

Mae'r mynedfeydd i Ysgol Sefydledig Bryn-mawr a'r peilonau trydan a chyfarpar cyfleustod dŵr wedi eu had-drefnu ac maent wedi eu hadeiladu. Gweler hefyd ddisgrifiad o Fynedfa Breifat newydd 1/14a ym mharagraff 6.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Ad-drefnu Mynedfa Breifat newydd 1/4a a Mynedfa Breifat newydd 1/5a a dileu priffordd newydd 1/F (ffordd ddiddosbarth o'r enw Clydach Dingle) a rhoi rhan o 1/G (ffordd ddiddosbarth o'r enw Clydach Dingle) yn ei lle. Mae'r testun sy'n pennu'r darnau mwy o'r fynedfa i gerbydau i Ysgol Sefydledig Bryn-mawr o'i chyffordd â Clydach Dingle sydd i'w cau â'r cyfeirnod 1/4 wedi ei ddiwygio.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**

Mân waith i ailalinio a blaenoriaethu'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Clydach Dingle a'i chyffordd ag Ysgol Sefydledig Bryn-mawr a'i mynedfa i'r safle cyfleustod.

**5. CLYDACH DINGLE WRTH EI GYFFORDD AG YSGOL SEFYDLEDIG BRYN-MAWR (ATODLEN 1 A PHLANIAU SAFLE 1D AC 1E)**

Mae'r newidiadau i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl fel y'u hadeiladwyd. Ad-drefnu Clydach Dingle (1/G) fel mai'r ffordd honno yw'r brif briffordd wrth ei chyffordd â Mynedfa Breifat newydd 1/4a sy'n arwain at Ysgol Sefydledig Bryn-mawr ac i Fynedfa Breifat newydd 1/5a at beilonau trydan a chyfarpar cyfleustod dŵr.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Dileu priffyrdd newydd 1/D (ffordd ddiddosbarth o'r enw Clydach Dingle), 1/E (Llwybr troed) ac 1/F (ffordd ddiddosbarth o'r enw Clydach Dingle) ac estyn ac ad-drefnu 1/G (ffordd ddiddosbarth o'r enw Clydach Dingle) yn lle hynny. Yn lle cau darnau ychwanegol o Clydach Dingle a Llwybr troed 333/57/1 rhoddwyd 1/G a phennwyd darn mwy dros Clydach Dingle a Llwybr troed 333/57/1 yn ardal i'w gwella.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**

Darparwyd mynedfa amgen resymol i Ysgol Sefydledig Bryn-mawr gan Lwybr troed 1/E a darpariaeth briffyrdd 1/D ac 1/F. Mae mynedfa resymol bellach yn cael ei darparu gan Clydach Dingle 1/G wedi ei ailalinio.

**6. MYNEDFA DDIWYDIANNOL/I GERBYDAU I GAEAU ODDI AR Y FFORDD DDIDDOSBARTH I HAFOD (ATODLEN 1 A PHLAN SAFLE 1E)**

Mynedfa Breifat 1/14a wedi ei had-drefnu a'i lledu i gyd-fynd â'r ardal i'w gwella wrth ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Hafod. Mynedfa i gerbydau diwydiannol i gaeau a phrosiect gwaddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer man cynnull teithio llesol.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Mynedfa Breifat 1/14a wedi ei had-drefnu a'i lledu fel y'i dangosir ar blan safle 1/E.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**

Mae bysiau ysgol yn defnyddio'r fynedfa ar hyn o bryd.

**7. Y FYNEDFA BREIFAT A LLWYBR TROED 333/16/1 NAS EFFEITHIWYD ARNYNT GAN WAITH ADEILADU (ATODLEN 1 A PHLANIAU SAFLE 1D AC 1E)**

Nid oedd unrhyw waith yn gysylltiedig â Mynedfa Breifat 1/1, 1/1a na gwaith gwella i Lwybr troed 333/16/1 wrth ei gyffordd ag Intermediate Road yn ofynnol.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Mae Mynedfa Breifat 1/1 (cau), Mynedfa Breifat 1/1a (sy'n disodli Mynedfa Breifat 1/1) a gwella Llwybr troed 333/16/1 wedi eu dileu.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**

Mae lefel yr amwynder wedi ei chynnal.

**8. CYWIRIADAU I ATODLEN 1 I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

1. Byddai'r Gorchymyn Amrywio yn ychwanegu'r statws 'diddosbarth' at y testun ar gyfer priffordd newydd 1/K.
2. Dylai cau Llwybr troed 333/55/1 ddarllen '(sy'n cyd-ddigwydd â Mynedfa Breifat 1/16)'.

**9. AILALINIO'R RAMPIAU DYNESU I BONT DROED PONT HARRI ISAAC A MÂN NEWID I FYNEDFA BREIFAT NEWYDD (ATODLEN 2 A PHLAN SAFLE 2B)**

Mae rampiau dynesu'r de a'r gogledd a Llwybr troed 333/55/1 a Llwybr troed 49/10 wrth Bont droed Pont Harri Isaac wedi eu had-drefnu ac mae darn bach yn ychwanegol o Lwybr troed 49/10 wedi ei gau. Mae 2/B, a oedd yn cynnwys y rampiau a'r bont droed, wedi ei ailgyfeirio yn 2/B, 2/G a 2/H er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran yr awdurdod priffyrdd. Mae 2/A (Llwybr troed) wedi ei ad-drefnu rhywfaint lle mae'n cysylltu â Llwybr troed 49/10.

Mae Mynedfa Breifat newydd 2/13a wedi ei hadleoli ychydig a'i had-drefnu er mwyn cyfarfod â ramp dolennog newydd Pont droed Pont Harri Isaac ac mae'n cyd-ddigwydd â Llwybr troed 2/G, rhan o Lwybr troed 2/B a rhan o Lwybr troed 333/55/1.

Mae rampiau a phont droed newydd Pont Harri Isaac yr A465 yn cael eu dangos fel priffordd newydd 2/B (Llwybr troed – cludir ar bont droed dros yr A465). Mae ramp dynesu'r gogledd (bellach yn rhan o 2/B) yn dolennu o dan y bont droed ac yn cysylltu â'r Llwybr troed 333/55/1 presennol sy'n arwain tua'r gorllewin i Hafod Arch a Bryn-mawr. Mae'r ramp deheuol yn cysylltu â darn newydd o lwybr ceffylau y cyfeirir ato fel 2/H.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Roedd diwygiad bach yn ofynnol er mwyn newid llinell y llwybr troed newydd (gogledd) a'r llwybr ceffylau (de) sy'n cyrraedd Pont droed Pont Harri Isaac yr A465 o'r gogledd a'r de ac i ad-drefnu Mynedfa Breifat newydd 2/13a fel y'u dangosir fel priffyrdd newydd 2/A (Llwybr troed) ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, 2/B (Llwybr troed – cludir ar bont droed dros yr A465 – sy'n cyd-ddigwydd yn rhannol â rhan o Fynedfa Breifat newydd 2/13a) ar gyfer Gweinidogion Cymru, 2/G (Llwybr troed – sy'n cyd-ddigwydd yn rhannol â rhan o Fynedfa Breifat newydd 2/13a), 2/H (Llwybr ceffylau) y ddau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Cafodd darn mwy o Lwybr troed 49/10 ei gau.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**

Mae'r ramp gogleddol yn dolennu o dan y bont droed ac yn cysylltu â'r llwybr troed presennol sy'n arwain at Hafod Arch. Mae'r ffordd ddynesu ddeheuol wedi newid i ramp strwythurol, sydd wedi ei adeiladu o ddur gan ddarparu pileri pont ychwanegol i gynnal y ramp newydd. Mae'r bont droed fel y'i hadeiladwyd yn gyson â Gorchmynion 2014 a wnaed ac yn darparu'r un lefel o amwynder a chysylltiad.

**10. ADLEOLI PONT DROED BLACKROCK (ATODLEN 2 A PHLAN SAFLE 2B)**

Mae Pont droed Blackrock dros yr A465 a'r rampiau wedi eu hailalinio a'u hadleoli i ymyl gorllewinol Blackrock. Mae ei chysylltiadau â'r rhwydwaith llwybrau troed presennol wedi eu haddasu er mwyn ymuno â'r troetffyrdd ar yr A465 a Main Road. Yn sgil adleoli'r bont droed bu modd i'r tanlwybr presennol gael ei ddefnyddio fel clwydfan ystlumod. Mae'r bont droed wedi ei hailgyfeirio yn 2/D a 2/I er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran yr awdurdod priffyrdd. 2/J (Llwybr troed) yw'r darnau sydd wedi eu hailgyfeirio sydd i'w gwella o Lwybr troed 52/128 a Llwybr troed 52/23 er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran yr awdurdod priffyrdd.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Byddai diwygiadau'n ofynnol ar gyfer adleoli Pont droed Blackrock dros gefnffordd yr A465, sydd wedi symud ymhellach i'r gorllewin ac y cyfeirir ati fel 2/D (Llwybr troed – cludir ar bont droed dros yr A465) ar gyfer Gweinidogion Cymru a 2/I (Llwybr troed) ar gyfer Cyngor Sir Fynwy. Mae'r gwaith i wella Llwybr troed 52/128 a rhan o Lwybr troed 52/23 i gysylltu â'r A465 wedi ei wneud yn ogystal â lleihau'r gwaith gwella i Main Road a dileu'r gwaith gwella i Lwybr troed 52/58. Mae cau Llwybr troed 52/23 wedi ei estyn ac mae cau Llwybr troed 52/128 wedi ei ychwanegu a rhoddir 2/J yn ei le i adlewyrchu mai Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Priffyrdd.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Mae adleoli'r bont droed wedi cynyddu'r pellter cerdded ychydig ochr yn ochr â'r ffordd. Mae lefel yr amwynder wedi ei chynnal.

**11. GWELLA MAIN ROAD YN BLACKROCK (ATODLEN 2 A PHLAN SAFLE 2B)**
Llai o waith gwella i Main Road cyfagos â Waterfall Cave.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Mae cwmpas y gwaith gwella wedi ei leihau yn y lleoliad hwn.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Gwnaed llai o waith adeiladu yn yr ardal hon.

**12. MYNEDFEYDD PREIFAT ODDI AR MAIN ROAD**
Mae mân newidiadau wedi eu gwneud i drefniadau Mynedfa Breifat newydd:
2/11a – cafodd y Fynedfa Breifat newydd ei hadleoli y tu cefn i Fflatiau Hafod Inn, fel nad yw'n cyrraedd Main Road yn uniongyrchol.
2/11b – cafodd y Fynedfa Breifat newydd sy'n disodli Mynedfa Breifat ei hadleoli o'i lleoliad gwreiddiol.
2/12a – cafodd y Fynedfa Breifat newydd ar gyfer Field House ei had-drefnu yn ei lleoliad gwreiddiol, sef 2/12.
Mae Mynedfa Breifat 2/5 a'r fynedfa sy'n ei disodli 2/5a, a Mynedfa Breifat 2/8 a'r fynedfa sy'n ei disodli 2/8a, wedi eu dileu am nad oeddent yn ofynnol.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Mae diwygiadau'n ofynnol i leoliad Mynedfeydd Preifat newydd 2/11a, 2/11b, 2/12a o ffordd ddiddosbarth 2/F, ac mae'n ofynnol dileu 2/5, 2/5a, 2/8 a 2/8a.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Nid oedd y newidiadau i Fynedfeydd Preifat na'u gwaith cysylltu yn newidiadau sylweddol ac maent wedi eu trafod â'r Awdurdod Lleol, tirfeddianwyr, buddiolwyr ac ystyrir eu bod yn newidiadau amgen rhesymol.

**13. FFORDD DDIDDOSBARTH YN BLACKROCK Y TU CEFN I FFLATIAU HAFOD INN A FIELD HOUSE (ATODLEN 2 A PHLAN SAFLE 2B)**

Ychwanegu priffordd newydd gan gynnwys troetffordd sy'n darparu mynedfa o Main Road i'r safle bws ar gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Ychwanegu priffordd newydd 2/F (ffordd ddiddosbarth).

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Darparu priffordd leol sy'n arwain o Main Road i gyrraedd dau le parcio cyhoeddus y tu cefn i Fflatiau Hafod Inn a'r droetffordd sy'n arwain at y safle bws ar gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465.

**14. MYNEDFA I GERBYDAU I 'CHWAREL' NAS DEFNYDDIR O'I CHYFFORDD Â MAIN ROAD (ATODLEN 2 A PHLAN SAFLE 2B)**
Nid oedd yn ofynnol adeiladu'r cloddwaith arfaethedig yn y lleoliad hwn gan arwain at leihau'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r fynedfa.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Cau darn llai o Fynedfa Breifat 2/1 a'r Fynedfa Breifat sy'n ei disodli 2/1a.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Mae'r newidiadau i'r fynedfa i gerbydau yn darparu dewis amgen rhesymol.

**15. PONT DROED DAN-Y-COED (ATODLEN 3 A PHLAN SAFLE 3B).**
Mae'r ramp llwybr troed ar ochr ddeheuol Pont droed Dan-y-Coed wedi ei ailalinio. Mae 3/B wedi ei ailgyfeirio yn 3/B a 3/C er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran yr awdurdod priffyrdd. Mae 3/B bellach yn cynnwys y darn wedi ei wella o Lwybr troed 52/127 a'r bont droed.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Mae pen deheuol y briffordd newydd wedi ei ailalinio a'i ailgyfeirio yn 3/C (Llwybr troed).
Mae'r Awdurdod Priffyrdd ar gyfer 3/B (Llwybr troed – cludir ar bont droed dros yr A465) yn unig wedi newid o Gyngor Sir Fynwy i Weinidogion Cymru ac mae'n cynnwys rhan o Lwybr troed 52/127.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Mae'r ramp ar ochr ddeheuol yr A465 wedi ei ad-drefnu i ddarparu graddiant sy'n cydymffurfio â safonau ac i symud y ramp ymhellach i'r de i ffwrdd o'r gefnffordd er mwyn cyfarfod â Llwybr troed 52/50.

**16. MYNEDFEYDD PREIFAT YNG NGOGLEDD CLYDACH (ATODLEN 3 A PHLAN SAFLE 3B)**
Mae mynedfeydd preifat wedi eu hailalinio a'u hychwanegu i gyrraedd ardaloedd lliniaru amgylcheddol.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Ailalinio Mynedfeydd Preifat 3/2a, 3/2b oddi ar Rhonos Road ac ychwanegu 3/4a i gyrraedd cae 4607.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Mae Mynedfeydd Preifat 3/2a a 3/2b wedi eu hailalinio ac mae Mynedfa Breifat newydd 3/4a wedi ei hychwanegu i gyrraedd ardaloedd lliniaru amgylcheddol newydd.

**17. MYNEDFA BREIFAT I GAE 6285 YN DAN-Y-COED (ATODLEN 3 A PHLAN SAFLE 3B)**
Mân newid i safle Mynedfa Breifat 3/3a.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Mae safle Mynedfa Breifat 3/3a wedi ei newid ac mae'n cyd-ddigwydd yn rhannol â Llwybr troed 52/50.

**CYMHARU’R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Mae’r cynllun a adeiladwyd wedi newid safle Mynedfa Breifat 3/3a i’r rhan ddeheuol o gae 6285.

**18. MYNEDFA BREIFAT I DIR I’R DWYRAIN O FYNGALOS DAN-Y-COED (ATODLEN 3 A PHLAN SAFLE 3B)**
Ychwanegu Mynedfa Breifat newydd i gerbydau 3/5a gyda man troi i’r dwyrain o Fyngalos Dan-y-Coed.

**Y NEWIDIADAU SY’N OFYNNOL I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Ychwanegu Mynedfa Breifat newydd 3/5a.

**CYMHARU’R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Mae Mynedfa Breifat newydd i gerbydau a man troi newydd wedi eu hadeiladu er mwyn cyrraedd gwaith addasu a adeiladwyd, un o asedau draenio Gweinidogion Cymru a’r caeau i’r dwyrain o Dan-y-Coed Bungalows.

**19. LLWYBR TROED ANFFURFIOL GER ROCK COTTAGE (ATODLEN 3 A PHLAN SAFLE 3B)**
Ni chynigir mwyach roi Llwybr ceffylau 3/A yn lle’r llwybr troed anffurfiol o ganlyniad i dopograffi ac ansefydlogrwydd yr ardal. Mae llwybr arall yn lle llwybr anffurfiol 3/A wedi ei arolygu a’i gytuno gyda Chyngor Sir Fynwy. Byddai’r cysylltiad rhwng Main Road a Llwybr troed 52/63 a Chilffordd Gyfyngedig 52/94 yn cael ei gadw.

**Y NEWIDIADAU SY’N OFYNNOL I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Rhoddir 3/A (Llwybr troed) yn lle 3/A (Llwybr ceffylau).

**CYMHARU’R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Ailosod llwybr troed anffurfiol yn lle’r llwybr ceffylau arfaethedig.

**20. CYWIRIAD ANSTATUDOL I ATODLEN 3 I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Byddai’r Gorchymyn Amrywio yn ychwanegu ‘Llwybr troed 52/35’ at y rhestr ‘Y Priffyrdd sydd i’w gwella’ i gyd-fynd â phlan safle 3B.

**21. CAU LLWYBR TROED 52/34 YN SALEYARD (ATODLEN 4 A PHLAN SAFLE 4B)**
Mae’r darn sy’n weddill o Lwybr troed 52/34 wedi ei gau ar ei ben dwyreiniol i gyfeiriad y gorllewin hyd at ei gyffordd â Llwybr ceffylau 4/C.

**Y NEWIDIADAU SY’N OFYNNOL I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Cafodd cau gweddill Llwybr troed 52/34 ei gynnwys ac mae wedi ei ddileu o dan ‘Priffyrdd i’w Gwella’.

**CYMHARU’R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Caiff cysylltiad ei gadw drwy ddarparu troetffordd yn Saleyard.

**22. AILALINIO LLWYBR CEFFYLAU SY’N DISODLI LLWYBR TROED 52/34 O WAITH HAEARN CLYDACH HYD AT MAIN ROAD (ATODLEN 4 A PHLAN SAFLE 4B)**
O Waith Haearn Clydach, mae Llwybr ceffylau 4/C wedi ei ailalinio ac mae 4/H wedi ei ychwanegu yn lle Llwybr troed 52/34 gan gysylltu â’r darn wedi ei ailalinio o Lwybr ceffylau newydd 4/G.

**Y NEWIDIADAU SY’N OFYNNOL I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Mae 4/H (Llwybr ceffylau) wedi ei ychwanegu ac mae 4/C (Llwybr ceffylau) a 4/G (Llwybr ceffylau) wedi eu hailalinio.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Mân waith i ailalinio'r Llwybr ceffylau gyda chysylltiad ychwanegol â Main Road.

**23. LLWYBR TROED 4/E, CYFLEUSTER MAN TROI/MYNEDFA BREIFAT NEWYDD 4/3a A MYNEDFA BREIFAT NEWYDD 4/5a GER FORGE ROW (ATODLEN 4 A PHLAN SAFLE 4B– MEWNOSODIADAU C A D)**
Mae gan Lwybr troed 4/E fynedfa breifat gyfyngedig i gerbydau â'r cyfeirnod 4/5a ac mae wedi ei ad-drefnu ychydig ar ei ben dwyreiniol a gorllewinol ac mae'n cyfarfod â Llwybr troed 5/G ar blan safle 5B. Mae Mynedfa Breifat newydd 4/3a ger Forge Row yn cynnwys y cyfleuster man troi sydd wedi ei ddiwygio ac mae hefyd ar gael bellach at ddefnydd Dŵr Cymru er mwyn cyrraedd ei gyfarpar sy'n cysylltu â mynedfa breifat gyfyngedig i gerbydau â'r cyfeirnod 4/5a. Mae'r Awdurdod Priffyrdd ar gyfer llwybr troed 4/E wedi newid i Weinidogion Cymru.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Mân waith ad-drefnu i Fynedfa Breifat newydd i gerbydau 4/3a a ddisgrifir bellach fel ei bod yn cyd-ddigwydd â phen dwyreiniol 4/E (Llwybr troed) ac yn ymuno â Llwybr troed 52/113 a Llwybr troed 5/G. Mae'r Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Llwybr troed 4/E wedi newid o Gyngor Sir Fynwy i Weinidogion Cymru ac mae'n cyd-ddigwydd â Mynedfa Breifat newydd 4/5a.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Mae gan Lwybr troed 4/E fynedfa breifat gyfyngedig i gerbydau â'r cyfeirnod 4/5a ac mae wedi ei ad-drefnu ychydig ac mae'n cynnwys y cyfan o'r man troi er mwyn addasu ar gyfer yr amodau a brofwyd ar y safle. Mae Dŵr Cymru wedi cael mynedfa i gerbydau i'w gyfarpar dros fan troi 4/3a a Llwybr troed 4/E.

**24. CYFLEUSTER MAN TROI FFORDD BRUNANT (ATODLEN 4 A PHLAN SAFLE 4B MEWNOSODIAD E)**
Mân ddiwygiad a gwelliant i gyfleuster man troi 4/F yn Ffordd Brunant lle mae'n cyfarfod ag Old Trap Road sydd wedi ei gau a Llwybr troed 52/120.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Mae man troi 4/F (ffordd ddiddosbarth o'r enw Ffordd Brunant) wedi ei ad-drefnu ychydig i'r dwyrain lle mae'n cyfarfod â Llwybr troed 52/120. Mae Llwybr troed 52/120 wedi ei gynnwys o dan 'Y Priffyrdd sydd i'w gwella'.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Mae cyfleuster man troi 4/F yn aros heb ei newid ac mae wedi ei ad-drefnu ychydig i'r dwyrain o ganlyniad i broffiliau daear.

**25. CYWIRIADAU I ATODLEN 4 I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED (PLAN SAFLE 4B)**

1. Mae 4/A wedi ei ailgyfeirio yn 4/A (Llwybr troed – cludir ar bont droed dros yr A465) (Gweinidogion Cymru), a 4/I (Llwybr troed) (Cyngor Sir Fynwy) er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran yr awdurdod priffyrdd.
2. Mae Mynedfa Breifat 4/4a wedi ei hychwanegu at ddiwedd Atodlen 4 i gyfateb i blan safle 4B Gorchymyn 2014 a Wnaed.
3. Yn dilyn cais gan yr awdurdod lleol cynhwyswyd ychwanegiad/cywiriad i gau'r darnau o Lwybr troed 52/40 er mwyn cyfateb i'r llinell a ddangosir ar y map diffiniol fel y'i dangosir ar blan safle 4B.

**26. LLWYBR TROED WRTH YR HEN LION TERRACE, GILWERN (ATODLEN 5 A PHLAN SAFLE 5B)**

Mân newid i llwybr a hyd y llwybr troed ac mae wedi ei ailgyfeirio yn 5/A a 5/G er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran yr awdurdod priffyrdd.

**Y NEWIDIADAU SY’N OFYNNOL I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Cafodd 5/A (Llwybr troed) ei ailalinio er mwyn dilyn y gefnffordd a adeiladwyd, ei ymestyn ar ei ben dwyreiniol er mwyn cyfarfod â Main Road a’i ailgyfeirio yn 5/A (Llwybr troed) (Gweinidogion Cymru), a 5/G (Llwybr troed) (Cyngor Sir Fynwy) er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran yr awdurdod priffyrdd.

**CYMHARU’R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**

Mae Llwybr troed 5/A wedi ei ailalinio yn rhannol ochr yn ochr â’r A465 o ganlyniad i broffiliau daear ac wedi ei ymestyn i Main Road gan ddarparu cysylltiad gwell rhwng Saleyard a Gilwern.

**27. LLWYBR TROED 5/C, MYNEDFA BREIFAT 5/10 A MYNEDFA BREIFAT NEWYDD SY’N EI DISODLI 5/10a WRTH YR HEN NAVIGATION INN, GILWERN (ATODLENNI 5 A 6 A PHLANIAU SAFLE 5B A 6A)**

Mae Llwybr troed 5/C wedi ei ymestyn ar ei ben dwyreiniol a’i ben gorllewinol ac wedi ei ailgyfeirio yn 5/I, 5/C, 5/J a 6/A er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran yr awdurdod priffyrdd. Mân newid i lwybr a hyd y llwybr troed er mwyn dilyn ffin yr hen Navigation Inn wrth ei ben gorllewinol a’i ymestyn ar ei ben dwyreiniol er mwyn cyfarfod â Llwybr troed 52/47 (Llwybr halio) dros Bont Gamlas yr A465 6/A (Llwybr troed).

Cafodd Mynedfa Breifat i gerbydau 5/10a ei hymestyn y tu cefn i’r hen Navigation Inn i alluogi Glandŵr Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru i gael mynediad i gyfleuster draenio’r briffordd ac mae’n cyd-ddigwydd â phen gorllewinol Llwybr troed 5/I sydd wedi ei ailalinio.

**Y NEWIDIADAU SY’N OFYNNOL I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Cafodd hyd cyfan 5/C (Llwybr troed) ei ymestyn a’i ailalinio, mae’n parhau fel 6/A (Llwybr troed) ac mae wedi ei rannu er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran yr awdurdod priffyrdd a chyfeirir ato fel 5/I (Llwybr troed) (Gweinidogion Cymru), 5/C (Llwybr troed) (Cyngor Sir Fynwy), 5/J (Llwybr troed) (Gweinidogion Cymru) a 6/A (Llwybr troed) (Gweinidogion Cymru). Cafodd Mynedfa Breifat i gerbydau 5/10a ei hymestyn ac mae’n cyd-ddigwydd â rhan o 5/I (Llwybr troed).

**CYMHARU’R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**

Cafodd Llwybr troed 5/C ei ailgyfeirio a’i ailalinio ochr yn ochr â’r A465 yn rhannol, a chafodd ei ben dwyreiniol ei ymestyn i ymuno â Llwybr troed newydd 6/A sy’n cysylltu â Llwybr troed 52/47. Cafodd y pen gorllewinol ei ymestyn i gysylltu â Main Road. Roedd angen ailalinio o ganlyniad i broffiliau daear. Mae’r cysylltiad â Chamlas Sir Fynwy a Brycheiniog wedi ei gadw ac mae’r cysylltiad â 5/A wedi ei wella. Nid effeithiodd y gwaith ar y llwybr halio.
Cafodd y fynedfa ei hymestyn y tu cefn i’r hen Navigation Inn i alluogi Glandŵr Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru i gynnal a chadw cyfleuster draenio’r briffordd i mewn i Gamlas Sir Fynwy a Brycheiniog.

**28. MYNEDFEYDD PREIFAT NAD EFFEITHIODD Y GWAITH ADEILADU ARNYNT (ATODLEN 5 A PHLAN SAFLE 5B)**

Nid oedd yn ofynnol cau nac addasu rhai mynedfeydd preifat penodol, na darparu mynedfeydd preifat newydd fel y’i rhagwelwyd ar gyfer y cynllun a gyhoeddwyd. Nid effeithiodd y cynllun yn uniongyrchol ar y Mynedfeydd Preifat a restrir isod ac maent felly wedi eu dileu.

**Y NEWIDIADAU SY’N OFYNNOL I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Mae cau Mynedfeydd Preifat a’r Mynedfeydd Preifat sy’n eu disodli 5/5 a 5/5a, 5/6 a 5/6a, 5/7 a 5/7a wedi eu dileu. Nid oes angen am Fynedfa Breifat 5/12a mwyach ac mae wedi ei dileu.

**29. MYNEDFA BREIFAT 5/8 A'R FYNEDFA BREIFAT SY'N EI DISODLI 5/8a YN NEW PENTWYN FARM, GILWERN (ATODLEN 5 A PHLAN SAFLE 5B)**
Mae Mynedfa Breifat newydd 5/8a ar gyfer yr hen fangre o'r enw New Pentwyn Farm wedi ei lleihau.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Mae Mynedfa Breifat newydd 5/8a wedi ei hailalinio ychydig a'i lleihau.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Cafodd y fynedfa y tu blaen i'r eiddo ei lleihau er mwyn addasu ar gyfer amodau ar y safle.

**30. MYNEDFA BREIFAT 5/9 A'R FYNEDFA BREIFAT SY'N EI DISODLI 5/9a, LLWYBR TROED 52/80 WRTH GAEAU PENTWYN, GILWERN (ATODLEN 5 A PHLAN SAFLE 5B)**
Cafodd Mynedfa Breifat i gerbydau 5/9a i Gaeau Pentwyn ei hailalinio ac mae'n cyd-ddigwydd â 5/D (Llwybr troed) sy'n rhan o Lwybr troed 52/80.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Mae Mynedfa Breifat i gerbydau 5/9a a 5/D (Llwybr troed) sy'n cyfarfod â Llwybr troed 52/80 wedi eu hailalinio.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Cafodd y fynedfa i Gaeau Pentwyn drwy Fynedfa Breifat 5/9a a Llwybr troed 5/D ei hailalinio i addasu ar gyfer amodau ar y safle.

**31. CYFLEUSTER MAN TROI AR FFORDD YR ORSAF (ATODLEN 5 A PHLAN SAFLE 5B)**
Nid oedd yn ofynnol darparu'r cyfleuster man troi ar Ffordd yr Orsaf wedi ei hailalinio at ddibenion cynnal a chadw fel y'i rhagwelwyd ar gyfer y cynllun a adeiladwyd. Mae Mynedfa Breifat 5/13a wedi ei dileu.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Cafodd Mynedfa Breifat 5/13a ei dileu.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Bydd Mynedfa Breifat i gerbydau 5/10a y tu cefn i'r hen Navigation Inn yn darparu mynedfa i alluogi Glandŵr Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ar gyfleuster draenio'r briffordd i mewn i Gamlas Sir Fynwy a Brycheiniog.

**32. YCHWANEGU LLWYBR TROED 5/F I GYSYLLTU LLWYBR TROED 5/A I GYFARFOD Â LLWYBR TROED 52/97 (ATODLEN 5 A PHLAN SAFLE 5B)**
Ychwanegu llwybr troed newydd i wella'r cysylltiad rhwng Llwybr troed 5/A a Chamlas Sir Fynwy a Brycheiniog i'r de o hen Westy'r Lion, Gilwern.

**Y NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**
Ychwanegu 5/F (Llwybr troed) gyda Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod priffyrdd, cau darn mwy o Lwybr troed 52/97 a lleihau'r gwaith gwella.

**CYMHARU'R CYNLLUN A ADEILADWYD Â GORCHMYNION 2014 A WNAED**
Ychwanegu llwybr troed newydd i gadw'r cysylltiad rhwng Llwybr troed 5/A a Llwybr troed 52/97 sy'n arwain at Lwybr halio Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog.

**33. CYWIRIADAU I ATODLEN 5 I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Byddai'r Gorchymyn Amrywio yn ychwanegu at "5/E (Llwybr troed – cludir ar bont droed dros yr A465" ac yn newid "Yr Awdurdod Priffyrdd" o "Cyngor Sir Fynwy" i "Gweinidogion Cymru".